Arweiniad i...

# Ddata Cyfrifiad 2021



Data Cymru

Cynhyrchwyd gan: Data Cymru
Cyhoeddwyd: Mehefin 2022

029 2090 9500

ymholiadau@data.cymru

www.data.cymru

Mae'r arweiniad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cynnwys

1. Cyfrifiad 2021 ..... 1
2. Cynhyrchu set ddata Cyfrifiad 2021 ..... 2
3. 'Digidol yn gyntaf' ..... 2
4. Amcangyfrifon poblogaeth ..... 3
5. Amcanestyniadau poblogaeth ..... 4
6. Diffiniadau pwysig ..... 4
7. Cwestiynau newydd ar gyfer 2021 ..... 5
8. Cynnal y Cyfrifiad yn ystod pandemig ..... 6

# 1. Cyfrifiad 2021

Mae'r Cyfrifiad sy'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn gyfrifiad o'r holl bobl ac aelwydydd ac mae wedi digwydd pob 10 mlynedd ers 1801. Dyma'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf dibynadwy sydd gennym am y boblogaeth. Daw'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob dangosydd o Gyfrifiad 2011. Fodd bynnag, cyhoeddwyd y gyfran gyntaf o ddata Cyfrifiad 2021 ar 28 Mehefin 2022. Mae hyn yn cynnwys data am Gymru a Lloegr, ar lefel awdurdodau lleol (wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf):

- y boblogaeth breswyl arferol yn ôl rhyw;
- y boblogaeth breswyl arferol yn ôl grŵp oedran 5-mlynedd;
- y boblogaeth breswyl arferol yn ôl rhyw a grŵp oedran 5-mlynedd;
- dwysedd y boblogaeth breswyl arferol; a
- nifer yr aelwydydd.

Mae'r Cyfrifiad yn ceisio cynnwys pawb a'i nod yw dangos cyfrifiad gwirioneddol o breswylwyr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Dyma'r unig arolwg sy'n cynnig darlun manwl o'r boblogaeth gyfan. Mae'n unigryw oherwydd:

- mae'n ofynnol o dan y gyfraith i bawb yng Nghymru a Lloegr ei gwblhau;
- dylai pawb gwblhau'r arolwg ar yr un diwrnod; ac
- mae'r arolwg yn eich galluogi i gymharu pawb yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gan y cyfrifiad yn gadael i lywodraeth ganolog a lleol, awdurdodau iechyd a llawer iawn mwy o sefydliadau dargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae'n eu helpu i gynllunio am y gwasanaethau canlynol am flynyddoedd i ddod:

- tai;
- addysg;
- iechyd; a
- thrafnidiaeth.

Mae amrediad o ddata o Gyfrifiadau 2001 a 2011 yn InfoBaseCymru. Bydd data o Gyfrifiad 2021 hefyd ar gael yn InfoBaseCymru wrth iddo gael ei gyhoeddi. Mae modd edrych ar hwn mewn mapiau, tablau ac adroddiadau, ar lefel awdurdodau lleol a lefel ardal leol (ardal gynnyrch ehangach is). Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd dwyieithog sydd ar gael ar ein gwefan ac InfoBaseCymru, sy'n cymharu data o Gyfrifiadau 2001, 2011, a 2021.

## 2. Cynhyrchu set ddata Cyfrifiad 2021

Gofynnwyd i ymatebwyr i Gyfrifiad 2021 roi atebion a oedd yn disgrifio orau eu hamgylchiadau ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021). Llenwodd dros 20 miliwn o aelwydydd y ffurflen. O'r rhain, llenwodd tua 2.5 miliwn ffurflenni papur. Ar ôl derbyn yr ymatebion, cynhaliodd y SYG brosesau a gwiriadau cychwynnol, gan gynnwys:

- Cafodd ffurflenni papur eu sganio, eu digidieddio, ac yna eu hanfon i'w hailgylchu yn hancesi papur!
- Cafodd y data ei lanhau rhag dyblygiadau ac ymatebion wedi'u sbwylio. Anfonodd bron 300,000 o bobl ddatganiadau Cyfrifiad lluosog i mewn yn 2021.
- Cafodd y data ei godio yn ôl dosbarthiadau fel ethnigrwydd, crefydd, galwedigaeth, ac ati. Yna aml mae miloedd o ymatebion unigryw y mae'n rhaid eu codio i systemau dosbarthu sy'n bodoli'n barod.
- Cafodd data cyfeiriad ei lanweithio a'i wirio.

Yna cymhwyswyd modelu i'r set ddata bron-yn-derfynol i lenwi (priodoli) ymatebion coll i gwestiynau gorfodol.

Yn olaf, am nad yw pawb yn cael eu cipio gan y Cyfrifiad, cynhaliodd y SYG Arolwg Cwmpas o ryw 350,000 o aelwydydd i ddod o hyd i'r rhai a ymatebodd ac a fethodd ag ymateb i'r Cyfrifiad. Yna, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, addaswyd set ddata'r Cyfrifiad am y rhai a fethodd ag ymateb.

Ar gyfer Cyfrifiad 2021, cydgysylltodd y SYG ag awdurdodau lleol a chyrff eraill i gefnogi'r gwaith dilysu'r canlyniadau. Gwnaeth y SYG:

- groesgyfeirio canlyniadau'r Cyfrifiad gyda ffynonellau data eraill, gan gynnwys data'r dreth gyngor a chanlyniadau arolwg;
- gofyn i academyddion allanol ac arbenigwyr pwnc adolygu data topigau;
- am y tro cyntaf erioed, gofyn i awdurdodau lleol adolygu'r canlyniadau di-enw cyn eu cyhoeddi am eu hardaloedd.

Y cam sicrhau ansawdd ychwanegol hwn sydd wedi arwain at gyhoeddiad cyntaf y Cyfrifiad yn digwydd ym Mehefin yn hytrach na Mawrth (fel yn 2011).

## 3. 'Digidol yn gyntaf'

Cyfrifiad 2021 oedd y Cyfrifiad cyntaf a oedd ar-lein yn bennaf. Mae 'Digdol yn gyntaf' yn ddull sy'n blaenoriaethu ymateb digidol dros ymateb papur, lle bo'n bosibl ac yn briodol. Anfonwyd cod mynediad at 89% o

aelwydydd yng Nghymru a Lloegr i gwblhau'r Cyfrifiad ar-lein (er bod holiaduron papur ar gael iddynt drwy wneud cais).

Derbyniodd 11% o aelwydydd holiaduron papur a chod mynediad digidol. O'r rhain, ymatebodd bron hanner ar-lein (46.4%).

O'r aelwydydd hynny a ymatebodd i Gyfrifiad 2021, gwnaeth 88.9% hynny ar-lein. Mae hyn yn cymharu ag 16% o aelwydydd a ymatebodd ar-lein yn 2011, y tro cyntaf i unrhyw ymateb ar-lein i Gyfrifiad fod yn bosibl.

## 4. Amcangyfrifon poblogaeth

Amcangyfrifon poblogaeth o'r cyfrifiad yw'r ffordd fwyaf cywir a dibynadwy o gyfrif y boblogaeth. Mae'r amcangyfrifon poblogaeth yn cael eu diweddaru bob blwyddyn i gynhyrchu amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ar gyfer y blynyddoedd rhwng pob cyfrifiad. Maent yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol gan y SYG, ac yn dweud wrthym:

- faint o bobl sy'n byw yn y DU;
- faint o bobl sy'n byw yn ardal pob awdurdod lleol; a
- gwybodaeth am strwythyr oedran a rhyw poblogaeth yr ardaloedd hyn.

Cyfrifiad 2021 yw'r cyfrifiad cyntaf i gynnwys cwestiwn am rywedd yn ogystal â rhyw. Mae'r amcangyfrif o boblogaeth ardal yn cynnwys:

- pob person sy'n preswylio yn yr ardal fel arfer (beth bynnag eu cenedligrwydd);
- myfyrwyr sy'n preswylio yn eu cyfeiriad amser tymor;
- aelodau lluoedd arfog y DU a gwledydd eraill ar leoliad yn y DU; ac
- ymfudwyr rhyngwladol hirdymor (a ddiffinnir fel rhywun sy'n newid eu gwlad breswylio arferol am gyfnod o flwyddyn o leiaf).

Nid yw'r canlynol yn cael eu cynnwys:

- aelodau lluoedd arfog y DU sydd ar leoliad tu allan i'r DU; ac
- ymfudwyr byrdymor (er enghraifft, gweithwyr mudol).

Fel arfer cyhoeddir yr amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ym Mehefin bob blwyddyn ond mae'n debyg y cyhoeddir amcangyfrifon 2021 yn yr hydref 2022.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, a dangosyddion dwysedd poblogaeth, ar gael yn InfoBaseCymru.

## 5. Amcanestyniadau poblogaeth

I gynllunio am y dyfodol, mae poblogaethau'n cael eu hamcanestyn er mwyn i ni allu deall pa newidiadau a allai ddigwydd. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn defnyddio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth a thueddiadau diweddar fel genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo.

Mae amcanestyniadau yn arwydd o beth allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau diweddar yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a wneir yn y modd hwn yn cymryd i ystyriaeth effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar boblogaethau'r dyfodol. Er enghraifft, ni fydd effaith datblygiad tai tebygol y dyfodol mewn ardal yn cael ei chynnwys. Mae amcanestyniadau yn dod yn fwyfwy ansicr po bellaf i'r dyfodol maent yn ceisio edrych.

*Cysylltwch â Sam Sullivan (Sam.sullivan@data.cymru) am fwy o wybodaeth am ddata poblogaeth.*

## 6. Diffiniadau pwysig

**Rhyw a rhywedd -** Mae geiriad y cwestiwn heb ei newid ers Cyfrifiad 2011 a'i nod yw cipio rhyw a gofrestrwyd adeg geni.

Mae cwestiwn newydd wedi'i gyflwyno yng Nghyfrifiad 2021 sy'n bwriadu cipio a yw'r rhywedd mae unigolyn yn uniaethu ag ef yr un peth â'u rhyw cofrestredig adeg eu geni.

**Aelwyd -** Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl, nid o reidrwydd yn perthyn, sy'n byw yn yr un cyfeiriad gan rannu cyfleusterau coginio a rhannu ystafell fyw neu lolfa neu fan bwyta.

**Preswylydd aelwyd -** Mae preswylydd aelwyd yn berson y mae ei breswylfan arferol mewn aelwyd unigol ac nid o fewn llety preswyl a reolir mewn sefydliad cymunedol.

**Preswylydd sefydliad cymunedol -** Mae preswylydd sefydliad cymunedol yn berson sydd eisoes wedi treulio, neu sy'n disgwyl treulio, chwe mis neu fwy mewn sefydliad cymunedol, er enghraifft, cartref gofal, ysbyty, hostel neu neuaddau preswyl myfyrwyr.

**Pobl yn cysgu allan -** Mae person sy'n cysgu allan yn berson a nodir fel bod yn "gwbl ddigartref". Mae hwn yn berson sy'n cysgu, neu'n

mynd i orwedd, yn yr awyr agored neu mewn adeiladau neu fannau eraill sydd heb eu dynodi i fod yn gartref. Er enghraifft, pobl sy'n cysgu ar y strydoedd neu wrth ddrysau, mewn parciau neu gysgodfannau bws.

Cyfrifwyd pobl sy'n cysgu allan yng Nghyfrifiad 2021. Sefydlwyd prosesau maes penodol i gyfrif pobl sy'n cysgu allan.

**Poblogaeth breswyl arferol -** Preswylydd arferol y DU yw unrhyw berson sy'n breswylydd aelwyd, yn breswylydd sefydliad cymunedol neu'n cysgu allan, ar 21 Mawrth 2021. Mae preswylydd arferol yn preswylio yn y DU ac wedi aros, neu'n bwriadu aros, yn y DU am 12 mis neu fwy neu sydd â chyfeiriad parhaol yn y DU ac sydd tu allan i'r DU ac yn bwriadu bod tu allan i'r DU am lai na 12 mis.

Yr unig eithriad yw aelodau'r lluoedd arfog sydd ar leoliad ar weithrediadau, sy'n aros yn breswylwyr arferol y DU beth bynnag y bo hyd eu lleoliad.

Dyma'r un diffiniad ag a ddefnyddir yn yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, sy'n caniatáu eu cymharu ag amcangyfrifon poblogaeth o wledydd eraill.

**Annedd -** Mae annedd yn uned llety sy'n gallu cynnwys un neu fwy o aelwydydd. Os yw'n cynnwys mwy nag un aelwyd, yna mae'n annedd a rennir. Mae'r mwyafrif o anheddau'n cynnwys un aelwyd yn unig.

**Gofod mewn aelwyd -** Gofod mewn aelwyd yw'r llety sy'n cael ei ddefnyddio, neu sydd ar gael i'w ddefnyddio, gan aelwyd unigol.

## 7. Cwestiynau newydd ar gyfer 2021

Cafodd tri chwestiwn newydd eu cyflwyno yng Nghyfrifiad 2021, sef:

1. **Hunaniaeth rywiol (gwirfoddol, ymatebwyr 16+):** A yw'r rhywedd rydych yn uniaethu ag ef yr un â'r rhywedd a gofrestrwyd amdanoch adeg eich geni?
    - Ydy
    - Nac ydy [ysgrifennwch ateb]
2. **Cyfeiriadedd rhywiol (gwirfoddol, ymatebwyr 16+):** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol?
    - Syth / Heterorywiol
    - Hoyw neu Lesbiaidd
    - Deurywiol
    - Cyfeiriadedd rhywiol arall [ysgrifennwch ateb]

**Lluoedd arfog (pob ymatebwr 16+):** A ydych wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen?

- Ydw, wedi gwasanaethu o'r blaen yn y Lluoedd Arfog Rheolaidd
- Ydw, wedi gwasanaethu o'r blaen yn y Lluoedd Arfog Wrth Gefn
- Nac ydw

Cyfarwyddwyd aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd dicio 'Nac ydw".

## 8. Cynnal y Cyfrifiad yn ystod pandemig

Effeithiodd cyfyngiadau mewn perthynas â phandemig Covid-19 ar ble roedd pobl yn byw, yn gweithio, ac yn cymdeithasu. Roedd y mwyafrif o gwestiynau'r Cyfrifiad yn gofyn i bobl ateb ar sail eu hamgylchiadau ar ddiwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021). Gan hynny, mae Cyfrifiad 2021 yn adlewyrchu amodau hanesyddol anghyffredin ac fe ddylai data gael ei ddehongli yn unol â hynny.

Cafodd cyfarwyddiadau penodol eu llunio i egluro sut i ateb cwestiynau roedd yn fwyaf tebygol bod y pandemig wedi effeithio arnynt, gan gynnwys:

- Pwy sy'n byw yma fel arfer;
- Ymwelwyr;
- Ail gyfeiriadau;
- Ymfudo mewnol;
- Iechyd;
- Gofal di-dâl;
- Gweithgarwch economaidd;
- Galwedigaeth; a
- Diwydiant.

Ond mae dau gwestiwn sy'n aros yn debygol o fod wedi'u dylanwadu gan y pandemig:

- Teithio i'r gwaith, ac
- Oriau sy'n cael eu gweithio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am ddata'r cyfrifiad, mae pob croeso i chi gysylltu â ni.

Byddem wrth ein bodd i glywed gennych chi.

Am fwy o wybodaeth am yr arweiniad hwn neu i weld ein cyfres o arweiniadau ewch i:


**www.data.cymru**

ymholiadau@data.cymru

029 2090 9500


Data Cymru